

Cylchlythyr 5

# Rhaglen Natura 2000 LIFE Cymru

Awst 2015

Mae'r Rhaglen Natura 2000 LIFE yn cynhyrchu cynllun strategol ar gyfer rheoli ac adfer yr holl Ardaloedd Cadwraeth Arbennig (ACA) ac Ardaloedd Gwarchodaeth Arbennig (AGA) yng Nghymru, ar y tir ac ar y môr, rhwng 2014 a 2020 a thu hwnt.  Mae'r prosiect yn cael ei redeg gan Cyfoeth Naturiol Cymru (NRW) a'i gefnogi'n ariannol gan gronfa LIFE+ yr Undeb Ewropeaidd.

## Cynlluniau Gweithredu Thematig

Mae Cynlluniau Gweithredu thematig drafft bellach ar gael i sefydliadau partner sydd am gyfrannu mewnbwn ac adborth. Mae'r rhain yn nodi'r camau strategol arfaethedig i roi sylw i risgiau a phroblemau sylweddol sy'n effeithio ar safleoedd, cynefinoedd a rhywogaethau Natura 2000 ledled y rhwydwaith yng Nghymru. Cynhyrchwyd y camau drafft hyn yn dilyn cyfres o weithdai pwnc-benodol a chyfarfodydd ag arbenigwyr o NRW a Llywodraeth Cymru a chynrychiolwyr eraill, ac rydym nawr yn ceisio cael cynifer â phosibl i gymryd rhan.

Os dymunwch wneud sylwadau, cysylltwch â'r tîm (cyfeiriad e-bost isod) gan nodi pa gynlluniau sydd o ddiddordeb i chi (gweler drosodd).



## Gwahoddiad i weithdai ym mis Awst

Bydd cyfle hefyd i drafod a chyflwyno sylwadau ar y Cynlluniau Gweithredu Thematig mewn dau ddigwyddiad i sefydliadau partner ym mis Awst. Bydd y gweithdai hyn hefyd yn cynnwys cyflwyniad ar ddarganfyddiadau'r Rhaglen N2K LIFE a chyfle i drafod y blaenoriaethau pwysicaf ar gyfer y gyfres N2K.

- 19 Awst: Swyddfeydd Maes y Ffynnon Cyfoeth Naturiol Cymru
- 25 Awst: Canolfan Ymwelwyr Garwnant ger Merthyr Tudful

Os oes gennych ddiddordeb mewn mynychu un o'r digwyddiadau hyn, e-bostiwch ni yn y cyfeiriad isod. Cofiwch fod llefydd yn brin.

## Cynlluniau Gwella Blaenoriaeth (PIPs)

Bellach lluniwyd cynllun PIP ar gyfer pob Ardal Cadwraeth Arbennig ac Ardal Gwarchodaeth Arbennig yng Nghymru, ar sail gwybodaeth gan swyddogion safle NRW gyda mewnbwn gan sefydliadau sy'n gyfrifol am gamau gweithredu neu sy'n berchen ar dir N2K, a Swyddogion Safleoedd Morol Ewropeaidd.   Diolch yn fawr i bawb a gyfrannodd. Rydym bellach yn y broses o ymgorffori'r adborth a chwblhau'r costau terfynol.

Gallwn roi mynediad at gynlluniau PIP i sefydliadau eraill gyda diddordebau penodol sydd am wneud sylwadau. Fodd bynnag, ni chyhoeddir y cynlluniau PIP ar-lein oherwydd mae llawer ohonynt yn cynnwys gwybodaeth sensitif. E-bostiwch ni yn y cyfeiriad isod gan nodi pa safleoedd sydd o ddiddordeb i chi.

Mae cynlluniau PIP yn ddogfennau byw a gall swyddogion safle eu diweddaru ar unrhyw adeg, felly gall y broses o ymgorffori'r adborth gan bartneriaid barhau ar ôl i'r Rhaglen N2K LIFE ddod i ben.

**Manylion cyswllt:** I gofrestru eich diddordeb, e-bostiwch life2000@naturalresourceswales.gov.uk.

## Adroddiadau Ar-lein

Mae'r adroddiadau canlynol bellach ar gael o dan yr adran Adroddiadau ar dudalennau gwe'r Rhaglen N2K LIFE (dolen isod).

Mae adroddiad ***Cyllid Natura 2000 yng Nghymru*** yn edrych ar yr opsiynau cyllid presennol a phosibl ar gyfer Natura 2000 yng Nghymru ac yn ceisio cynnig opsiynau ar gyfer arallgyfeirio ffynonellau cyllid er mwyn llenwi bylchau cyllid.

Mae'r adroddiad ***Rhestr o Wasanaethau Ecosystem*** yn ceisio rhoi asesiad cychwynnol o'r gwasanaethau ecosystem a ddarperir gan safleoedd a chynefinoedd Natura 2000 a nodweddion rhywogaeth yng Nghymru.

## Cynlluniau Gweithredu Thematig

- Mynediad a hamdden
- Llygru'r aer: Nitrogen atmosfferig
- Newid hinsawdd a darnio cynefin
- Llygredd dŵr gwasgaredig
- Rheoli perygl llifogydd ac erydu arfordirol
- Rheoli pori a da byw
- Rhywogaethau ymwthiol anfrodorol a phathogenau
- Newidiadau gan ddyn i amodau hydrolig
- Sbwriel morol
- Pysgodfeydd môr
- Rheoli coetiroedd
- Camau gweithredu trawstorri



## Cynhadledd Partneriaeth Bioamrywiaeth Cymru

Byddwn yn cyflwyno canlyniadau'r Rhaglen N2K LIFE ar 9 Medi yng Nghynhadledd y WBP yn Aberystwyth eleni. Yna ar 10 Medi cynhelir gweithdy lle bydd cyfle i roi adborth a thrafod sut y gall y gymuned bioamrywiaeth weithio gyda'i gilydd i ddarparu'r cynllun ar gyfer gweithredu. Hefyd cynhelir gweithdy cysylltiedig gan Lywodraeth Cymru ar ddyfodol y cyllid LIFE ar gyfer Natura 2000.

Am fwy o wybodaeth am y gynhadledd, ewch i dudalen gwe Cynhadledd Bioamrywiaeth Cymru.

## Cyllid Cystadleuol Allanol



Mae Cyfoeth Naturiol Cymru wedi cyhoeddi cyllid o £1.2 miliwn i'w fuddsoddi dros y ddwy flynedd nesaf mewn prosiectau sy'n gwella'r amgylchedd ar draws Cymru. Bydd yr arian ar gael i gyrff trydydd sector ac awdurdodau lleol ar gyfer prosiectau ar safleoedd a ddynodwyd yn Ardaloedd Cadwraeth Arbennig ac Ardaloedd Gwarchodaeth Arbennig.

Gellir ei ddefnyddio fel arian cyfatebol ar gyfer prosiectau sy'n rhoi sylw i broblemau allweddol sy'n effeithio ar y safleoedd hyn, gyda phwyslais ar bum maes pwysig sef rhywogaethau ymwthiol, darnio cynefin, rheoli coetiroedd yn annigonol neu'n amhriodol, sbwriel morol, a rheoli mynediad a hamdden i osgoi achosi niwed.

Am fwy o wybodaeth a manylion am sut i ymgeisio am y cyllid hwn, ewch i adran gyllid gwefan NRW: http://naturalresources.wales/about-us/funding?lang=cy

I gysylltu â'r Rhaglen Natura 2000 LIFE i gael mwy o wybodaeth am unrhyw beth yn y cylchlythyr, neu i fod ar ein rhestr bostio, e-bostiwch: life2000@naturalresourceswales.gov.uk.

Neu gallwch fynd i'n gwefan yn: www.cyfoethnaturiol.cymru/LIFEN2K neu hoffi ein tudalen Facebook.

**Cefnogir gan LIFE, un o offerynnau ariannol y Gymuned Ewropeaidd: N2K Cymru, LIFE 11 NAT/UK/385**